OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2550 (Cy.215)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *12 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2001* |

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**1**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 a daw i rym ar 1 Awst 2001.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus**

**2.** Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis Thomas*
12 Gorffennaf 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. (O.S. 1999/672).
(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

**ENW CYMRAEG NEU GYFIEITHIAD O'R ENW**

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch
Awdurdod Cwynion yr Heddlu
Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol
Yr Awdurdod Radio
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr
Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol
Y Bwrdd Marchnata Gwlân
Byrddau Prawf Lleol yng Nghymru
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Y Comisiwn Gwella Iechyd
Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Y Comisiwn Safonau Darlledu
Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Y Cyngor Ffilm
Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol
Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
Panel Asesu Rhenti i Gymru
Syniad
UFI Cyf.

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (y Cynulliad Cenedlaethol bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae dau Orchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (1996/1898); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (1999/1100).